Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Edrych ar ffyrdd o wella cynlllun sy’n cefnogi pobl anabl mewn gwaith



Mehefin 2025

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Am yr adroddiad yma | 3 |
| Beth wnaethon ni | 5 |
| Beth wnaethon ni ei ddarganfod | 8 |
| Beth mae pobl wedi ei ddweud am y cynllun | 10 |
| Awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun | 16 |
| Creu fersiwn Gymraeg o'r cynllun | 20 |
| Mwy o wybodaeth | 23 |


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52068, ISBN digidol 978-1-83715-838-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Am yr adroddiad yma



Fe wnaethon ni edrych ar y cymorth mae cyflogwyr yn ei gael i logi pobl anabl.

Mae cyflogwyr yn gallu cael cymorth gan gynllun o'r enw **Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd**.

y **cynllun**

Fe fyddwn ni'n ei alw yn **gynllun** yn fyr.



Mae'r **gynllun** yn dweud beth sydd angen i gyflogwyr ei wneud i gefnogi pobl anabl mewn gwaith.

Roedden ni eisiau gwybod sut roedd pobl yn teimlo am y **cynllun**.

y **cynllun**

Roedden ni eisiau gwybod sut rydyn ni'n gallu gwella'r **cynllun**.

Mae'r adroddiad yma am beth wnaethon ni, a beth wnaethon ni ei ddarganfod.

# Beth wnaethon ni




Fe wnaethon ni sefydlu tîm ymchwil i edrych ar y **cynllun**.



Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys pobl anabl.



Fe wnaethon ni gynnal 3 grŵp ffocws ar-lein ym mis Gorffennaf 2024.

Roedd 25 o bobl yn y grwpiau ffocws. Roedden nhw yn:



- Cyflogwyr – pobl neu sefydliadau rydych chi'n gweithio iddyn nhw.

- Undebau llafur – sefydliadau sy'n sefyll dros hawliau gweithwyr.




- Sefydliadau sy'n sefyll dros hawliau pobl anabl.



Roedd gan y bobl yn y grwpiau ffocws brofiadau gwahanol.

y **cynllun**

Roedd rhai pobl yn gwybod llawer am y **cynllun**.



Roedd rhai pobl yn gwybod llawer am y problemau mae pobl anabl yn gallu eu hwynebu yn y gwaith.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod



**Dyma beth roedd pobl wedi ei ddweud yn y grwpiau ffocws.**



Mae pobl anabl yn fwy tebygol o gael swyddi gyda chyflog isel.




Mae gan lawer o bobl anabl swyddi lle nad ydyn nhw'n gallu newid pethau i ateb eu hanghenion. Fel newid oriau gwaith neu pa dasgau mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud.



Dydy rhai pobl ddim eisiau dweud eu bod nhw yn anabl yn y gwaith.



Maen nhw'n teimlo bod hyn yn gwneud pethau'n fwy anodd. Rhaid i bobl deimlo'n ddiogel i ofyn am y cymorth maen nhw ei angen.




Efallai na fydd pobl yn deall **y Ddeddf Cydraddoldeb** yn dda iawn.

Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn gyfraith i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un siawns.




Mae hyn yn gwneud pethau'n fwy anodd. Efallai nad ydy pobl yn gwybod beth mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn dweud bod yn rhaid i gyflogwyr ei wneud.



Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn dweud bod yn rhaid i gyflogwyr wneud newidiadau fel bod pobl anabl yn gallu gweithio fel pawb arall.



Mae hyn yn meddwl pethau fel newid oriau gwaith a darparu cefnogaeth.

## Beth mae pobl wedi ei ddweud am y cynllun

**3** lefel

Mae 3 lefel yn y **cynllun**.

Lefelau **1** a **2**

Dydy Lefelau 1 a 2 ddim mor dda â Lefel 3.

Lefel **3**

Lefelau **1** a **2**

Roedd llawer yn cytuno bod Lefel 3 ychydig yn well na Lefelau 1 a 2.

## Lefel 3



Ar Lefel 3, mae cyflogwyr yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn cefnogi pobl anabl.



Maen nhw’n cael eu gwirio gan rywun o’r tu allan i’w gweithle.



Dydy hyn ddim yn digwydd ar Lefelau 1 a 2.

## Lefelau 1 a 2

Mae’n rhy hawdd cyrraedd Lefelau 1 a 2.



Does dim cymaint o gefnogaeth i gyflogwyr ar Lefelau 1 a 2.

Mae hyn yn meddwl:



- Weithiau dydy cyflogwyr ddim yn deall yn llawn sut beth ydy gwaith i bobl anabl.



- Weithiau dydy cyflogwyr ddim yn gwybod sut i gefnogi pobl anabl yn ddigon da.



Pan fydd cyflogwr yn rhan o'r **cynllun**, efallai y bydd pobl yn meddwl bod hynny'n meddwl eu bod yn rhoi cefnogaeth dda i bobl anabl.



Ond yn aml, dydy'r gefnogaeth ddim yn dda, neu fe fyddai'n gallu bod yn well.

Dydy cyflogwyr yn aml ddim yn sylweddoli y dylen nhw fod yn gwneud mwy.

y **cynllun**

Efallai y byddan nhw'n meddwl oherwydd eu bod yn rhan o'r **cynllun**, bod y gefnogaeth maen nhw'n ei roi yn ddigon da.

Mae yna gynlluniau eraill sy'n cefnogi gwahanol grwpiau o bobl mewn gwaith.

Maen nhw’n well oherwydd eu bod yn cynnwys pobl yn fwy.



Mae angen i’r **cynllun** ar gyfer pobl anabl gynnwys pobl anabl yn fwy.



Fe ddylai pobl anabl allu dweud pa mor dda mae’r **cynllun** yn gweithio iddyn nhw.

Fe ddylai cefnogaeth i gyflogwyr barhau i fynd.



Fe ddylid delio ag unrhyw beth sy’n arwain at brofiadau gwael i bobl anabl.



Fe ddylai cyflogwyr gael cefnogaeth i gywiro pethau.



Roedd cyflogwyr yn dweud eu bod am barhau i ddysgu a gwella.




Mae’r cyllid a’r gefnogaeth i gyflogwyr yn wahanol yn dibynnu ar ble maen nhw wedi’u lleoli yng Nghymru.

## Awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynllun




- Fe ddylai fod mwy o arian, staff, ac amser i wella'r **cynllun**.

mind Cymru
for better mental health
o blaid gwell iechyd meddwl

- Fe allai Sefydliadau Pobl Anabl roi mwy o gefnogaeth a chyngor i gyflogwyr.



- Fe ddylai fod gwiriadau da, rheolaidd ar gyflogwyr ar bob lefel.

- Fe allai pobl anabl helpu i wirio cyflogwyr ar bob lefel.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Fe allai Sefydliadau Pobl Anabl sefydlu grŵp i roi cyngor. Fe fydden nhw'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am sut i redeg y **cynllun** yn dda.



- Fe ddylai pawb sy'n ymwneud â'r **cynllun** rannu beth maen nhw'n ei ddysgu.

- Fe allai'r **cynllun** weithio'n agosach gyda sefydliadau lleol. Fel elusennau a sefydliadau pobl anabl.



Y peth mwyaf pwysig ydy cynnwys pobl anabl.



Fe fydd hyn yn helpu cyflogwyr i ddeall y problemau i bobl anabl yn well.

A gweithio allan sut i gefnogi pobl anabl orau.

Fe allai Undebau Llafur ymwneud mwy â nhw. Mae Undebau Llafur yn sefydliadau sy’n sefyll dros hawliau gweithwyr.

Fe allai undebau llafur gynnig cymorth i gyflogwyr a phobl anabl.




Gellid gwella deddfau i ddelio â’r problemau mwy y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn y gwaithk.



Mae’r **cynllun** yn cael ei redeg gan ran o Lywodraeth y DU o’r enw yr **Adran Gwaith a Phensiynau**. **DWP** yn fyr.



Mae angen i ni allu gweithio'n dda gyda'r **DWP**.

y **cynllun**

Os nad ydyn ni'n gallu gweithio'n well gyda'r DWP, fe allai sefydliad gwahanol redeg y **cynllun**.

Fe allwn ni wneud fersiwn Gymraeg o'r **cynllun**.

Fe allai Llywodraeth Cymru wneud mwy os byddai gennym ni **gynllun** Cymreig.

## Creu fersiwn Gymreig o'r cynllun

**Manteision:**

- Fe allwn ni sefydlu grŵp o arweinwyr yng Nghymru. Fe allen nhw weithio gyda'i gilydd gyda gwahanol sefydliadau a rhannu arfer gorau.

- Fe allwn ni gynnwys siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg.

y **cynllun**

- Fe allai'r **cynllun** ganolbwyntio ar faterion cyflogaeth yng Nghymru.

Lefel **3**

- Fe allai fod mwy o gefnogaeth leol. Fe allai hyn helpu mwy o gyflogwyr yng Nghymru i gyrraedd Lefel 3.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Efallai y bydd gan bobl fwy o ymddiriedaeth a hyder mewn **cynllun** Cymreig. Mae rhai pobl yn ymddiried yn Llywodraeth Cymru yn fwy nag y maen nhw'n ymddiried yn Llywodraeth y DU.



- Fe allwn ni gynnwys pobl anabl o'r cychwyn cyntaf.

y **cynllun**

- Fe allwn ni ei gysylltu â chynlluniau ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru. Fe allwn ni wneud rheol am brynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflogwyr ar y **cynllun** yn unig. Fe fyddai hyn yn annog mwy o gyflogwyr i gymryd rhan.

**Heriau:**




- Fe fydden ni angen arian, staff, ac amser i wneud i hyn ddigwydd.



- Mae cael 2 **gynllun** gwahanol yn gallu bod yn ddryslyd.




- Efallai y byddai'n well gwella'r **cynllun** sydd gennym ni yn barod. Peidio â chymryd amser, arian, a staff i ffwrdd ohono.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Ar y cyfan, roedd pobl yn teimlo y gallai cael **cynllun** Cymreig fod yn dda.



Ond roedd cefnogaeth gref hefyd i wella'r **cynllun** sydd gennym ni yn barod.

# Mwy o wybodaeth




Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o adroddiad Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydych chi'n gallu darllen y fersiwn wreiddiol yma: www.llyw.cymru/ymchwil-yn-edrych-ar-ffyrdd-o-wellar-cynllun-cyflogwr-hyderus-o-ran-anabledd-yng-nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith yma, rydych chi'n gallu:




E-bostio ni:
YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru sydd wedi ygrifennu'r testun Hawdd ei Ddeall yma. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.